# AROLWG CARTREFI

Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

## MEHEFIN 2008

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig braslun o ganlyniadau arolwg o 4071 o gartrefi yng nghefn gwlad Cymru a wnaethpwyd ar ran Arsyllfa Wledig Cymru [WRO] yn 2007. Mae'n adeiladu ar arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2004. Rhydd yr adroddiad ddadansoddiad o ddata'r arolwg drwy ganolbwyntio ar y themâu canlynol: Poblogaeth a Mudo, Cymuned, Lles a Budd, Gwasanaethau Lleol, Cyflogaeth, a'r Amgylchedd.

### PRIF GANFYDDIADAU

- Daeth yr arolwg o hyd i dystiolaeth o sefydlogrwydd yn y boblogaeth yn ogystal ag elfennau o newid yn y boblogaeth.
- Mynegwyd ymwybyddiaeth gref o ymlyniad cymunedol gan bron pob atebwr.
- Yr oedd 92% o atebwyr yn ystyried ansawdd eu bywyd yn dda.
- Yr oedd 18% o atebwyr yn rhugl eu Cymraeg ac yr oedd 47% yn medru peth Cymraeg.
- Yr oedd gan 18% o gartrefi incwm gros o lai na £10K, yr oedd gan 31% £10K – £21K, yr oedd gan 39% £21K – £52K, ac yr oedd gan 12% fwy na £52K. Yr oedd 46% o atebwyr yn derbyn budd-daliadau.
- Yn gyffredinol, yr oedd yr atebwyr yn ystyried ansawdd gwasanaethau yng nghefn gwlad yn dda. Trafnidiaeth gyhoeddus a'r heddlu a oedd waethaf yn eu barn hwy.
- Yr oedd chwarter o'r atebwyr wedi cael trafferth i ddod o hyd i waith addas.
- 3% oedd diweithdra ac yr oedd segurdod economaidd yn 30%.
- Y sector gwasanaethau oedd y prif gyflogwr o bell â 77%. Yr oedd gweinyddiaeth gyhoeddus (12%), Addysg (12%) a Gwaith Iechyd a Chymdeithasol (15%) yn arbennig o bwysig.
- Yr oedd 32% o atebwyr yn ystried bod yr amgylchedd lleol wedi gwella i raddau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dim ond 11% a oedd wedi gweld peth dirywiad.

**Yr Ymchwil**
Gan dîm ym Mhrifysgol ar ran Arsyllfa Wledig Cymru (AWC)

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## CEFNDIR A METHODOLEG

Yr oedd Arolwg Cartrefi 2007 yn adeiladu ar arolwg tebyg a gynhaliwyd gan y WRO yn 2004. Fe'i dyluniwyd gan ymchwilwyr y WRO, ac fe'i gweinyddwyd ac fe'i cynhaliwyd ar ran yr Arsyllfa gan GfK NOP Social Research rhwng Mai a Gorffennaf 2007. Casglwyd y data drwy arolwg dros y ffôn mewn sampl cynrychioliadol o 4071 o gartrefi, a oedd yn cynnwys 9851 o bobl yng nghefn gwlad Cymru. Yr oedd y diffiniad o gefn gwlad Cymru yn yr arolwg hwn yn ehangach na'r un blaenorol ac wedi'i seilio ar yr hyn a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei hymgynghoriad ar Gynllun Drafft Datblygu Cefn Gwlad Cymru (2007 – 2013).

Holwyd yr atebwyr amdanynt eu hunain, ac unigolion eraill yn eu cartref. Gofynnwyd iddynt ymateb i gyfres o ddatganiadau agweddol; cyflwyno data ffeithiol fel incwm y cartref; ac ateb cwestiynau penagored a oedd yn canolbwyntio ar eu hagwedd tuag at eu cymuned leol. Yr oedd y cyfweliadau ffôn yn para oddeutu 30 munud. Rhoddwyd y cyfle i atebwyr gynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg.
Yr oedd poblogaeth yr arolwg yn cynnwys 1438 o gyfweliadau â chartrefi a gymerodd ran yn yr ymchwil yn 2004; yr oedd y gweddill o'r 2633 o gyfweliadau cartrefi yn seiliedig ar hapsampl. Seiliwyd y nifer o gyfweliadau ym mhob parth ar nifer y trigolion a oedd yn byw yno.

Yn sgil coladu a chroesdablu ar y cychwyn gan GfK NOP Social Research, dadansoddwyd y data gan dîm ymchwil yr Arsyllfa. Yn ogystal â chyflwyno canfyddiadau ar gyfer cefn gwlad Cymru i gyd mae'r adroddiad yn pwysleisio, lle bynnag y bo'n briodol, yr amrywiadau ar sail rhyw, oedran, incwm, dosbarth cymdeithasol, daearyddiaeth, hyd y preswylio, gweithgarwch a statws economaidd, deiliadaeth cartref a chenedligrwydd.

## CANFYDDIADAU

### Demograffeg a Mudo

Fel yn adroddiad 2004 daeth adroddiad 2007 o hyd i dystiolaeth fod y boblogaeth yng nghefn gwlad Cymru yn bur sefydlog, ynghyd â chanfod fod elfennau o newid yn y boblogaeth. Er enghraifft, roedd 28% o'r atebwyr wedi byw yn eu cartref cyfredol am fwy nag 20 mlynedd, yr oedd 51% wedi byw yno rhwng 5 ac 20 mlynedd a llai nag 21% wedi byw yno am lai na 5 mlynedd.

O blith yr atebwyr hynny a oedd heb fyw yn yr un cartref roedd 41% wedi symud i rywle'n lleol, roedd 6% wedi symud o rywle arall yng nghefn gwlad Cymru, 17% wedi symud o rywle arall yng Nghymru a 36% wedi dod o'r tu allan i Gymru.

### Strwythur y Cartref

Nodir yn yr arolwg fod 38% o gartrefi yng nghefn gwlad Cymru yn gartrefi â dau aelod, yr oedd chwarter yn cynnwys un aelod yn unig ac roedd gan 38% â thri neu ragor o bobl ynddynt. O ran deiliadaeth roedd 47% ym mherchnogaeth lawn ar eu tai, 35% yn berchnogion â morgais, 7% yn rhentu'n breifat ac 8% yn rhentu'n gymdeithasol.

### Cymuned

Roedd cryfder y gymuned leol yng nghefn gwlad Cymru yn amlwg yn yr arolwg, gydag 82% o atebwyr yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol a 65% yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned. At hynny, roedd 30% o'r holl atebwyr yn byw o fewn milltir i'w haelod agosaf o'r teulu.

### Yr Iaith Gymraeg

Mewn perthynas â'r Gymraeg roedd 18% yn medru'r iaith yn rhugl, a oedd ychydig yn llai nag yn 2004. Fodd bynnag, yr oedd 47% a feddai ar ychydig eiriau neu frawddegau sef canran dipyn uwch na chynt.

### Iechyd a Lles

Ystyrid ansawdd bywyd yn dda neu yn dda iawn gan 92% o atebwyr.

Ystyriaeth allweddol mewn iechyd a lles yw incwm cartref. Ataliwyd manylion incwm gan ganran gymharol uchel o atebwyr. O blith yr atebwyr a gyflwynodd fanylion yr oedd gan 18% incwm blynyddol yn y cartref o lai na £10K, yr oedd gan 31% £10K - £21K, yr oedd gan 39% £21K - £52K, ac roedd gan 12% fwy na £52K. At ei gilydd, yr oedd 46% o'r atebwyr yn derbyn budd-daliadau.

Yr oedd y rhan fwyaf o atebwyr, sef 85%, yn honni eu bod naill ai yn gysurus neu yn ymdopi â'u hincwm presennol.

Mewn perthynas â thlodi yng nghefn gwlad Cymru roedd 43% o'r atebwyr yn ystyried bod pobl yn eu cymuned leol yn byw mewn tlodi. Pobl ddi-waith a phobl oedrannus oedd y grwpiau y tybid eu bod fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi.

### Gwasanaethau lleol

Yn gyffredinol, roedd gan atebwyr ganfyddiad cadarnhaol o'u gwasanaethau lleol. Er enghraifft, roedd 76% yn ystyried eu Swyddfa'r Post yn dda, 67% o'r un farn am y Gwasnaeth Iechyd, 66% am yr ysgolion, 65% am siopau bwyd a 64% am y banciau a'r cymdeithasau adeiladu. Yr oedd y sawl a oedd trigolion trefi yn fwy tebygol o ystyried ansawdd eu siopau bwyd, banciau a chymdeithasau adeiladu, a gwasanaethau hamdden yn dda.

Y gwasanaeth a ystyrid waethaf oedd trafnidiaeth gyhoeddus â 26% o atebwyr yn ei hystyried yn wael. Fodd bynnag, roedd cryn wahaniaeth mewn barn o le i le. Roedd 45% o atebwyr mewn tref yn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus yn dda. Ar y llaw arall, roedd 44% o drigolion ffermydd neu gartrefi yn y wlad yn ystyried trafnidiaeth gyhoeddus yn wael.

Y gwasanaeth gwaethaf nesaf yn nhyb yr atebwyr oedd yr heddlu; dywedodd 16% ohonynt fod plismona yn eu cymuned yn wael. Roedd atebwyr y dref yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar eu gwasanaeth heddlu.

### Cyflogaeth

Tanlinellodd yr arolwg fod chwarter yr atebwyr wedi cael anhawster i ddod o hyd i waith addas. Atebwyr ifanc (rhwng 16 a 34 oed) a oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael trafferth o'r fath. O blith y cyflogedig, roedd 38% mewn gwaith amser llawn, 12% mewn gwaith rhan-amser ac 8% yn hunan-gyflogedig. Roedd canrannau uwch o ddynion na menywod mewn gwaith amser llawn. Roedd y sefyllfa hon i'r gwrthwyneb i weithwyr rhan-amser gyda chynifer â phedair gwaith mwy o fenywod na dynion mewn gwaith o'r fath. Yr oedd lefelau hunan-gyflogaeth yn uwch ymhlith dynion a thrigolion cartrefi yn y wlad a ffermydd.

Roedd dwy ran o dair pobl dros 16 oed yng nghartrefi'r arolwg yn economaidd weithgar. Roedd canran y di-waith yn 3%. Roedd y canfyddiadau eraill mewn perthynas â chyflogaeth yn dangos fod 30% o atebwyr wedi ymddeol, ac nid oedd 13% o'r rheiny erioed wedi cael gwaith cyflogedig.

O ran y sectorau cyflogaeth, yr oedd y sector Gwasanaethau yn drech na'r un sector arall â 77%. Gyda'i gilydd, yr oedd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a gwaith iechyd a chymdeithasol yn cyfrif am 39% o swyddi. Roedd pwysigrwydd amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth yn parhau i ddirywio, gan gyflogi 4% o swyddi o'u cymharu â 6% arolwg 2004. O blith yr atebwyr mewn gwaith yr oedd 32% yn cael gwaith â chwmnïau preifat bychain (cwmnïau a llai na 24 gweithiwr), roedd 30% mewn cwmnïau preifat canolig a mawr, ac redd traean yn cael gwaith gan gyrff yn y sector cyhoeddus.

O blith yr atebwyr â gwaith cyflogedig roedd 11% yn gweithio gartref a 34% yn teithio pum milltir neu lai. Fodd bynnag, roedd 29% yn teithio mwy na 10 milltir i'r gwaith. At hynny, roedd 85% yn defnyddio trafnidiaeth fodurol breifat i deithio i'r gwaith.

### Yr Amgylchedd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf daeth pynciau'n ymwneud â'r amgylchedd, ac effaith pobl arno yn fwyfwy pwysig yng nghefn gwlad Cymru. Mae ansawdd tirlun cefn gwlad Cymru a'i adnoddau naturiol ehangach yn golygu fod llawer o bynciau amgylcheddol ag arwyddocâd o bosibl i bobl sydd yn byw yno. Aeth yr arolwg ati i chwilio sut yr oedd atebwyr yn ymagweddu tuag at yr amgylchedd, tuag at y pynciau amgylchedd pwysig ac sy'n dod i'r amlwg, a sut yr oeddent yn ymateb i rai o'r pynciau hynny.

Yr oedd ychydig mwy na hanner (53%) yr atebwyr heb ganfod unrhyw newid yn ansawdd yr amgylchedd naturiol lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd 11% sylw at ddirywiad bychan, ac roedd 32% o'r farn ei fod wedi gwella i raddau.

Roedd y mwyafrif mawr (92%) wedi ystyried cymryd rhai camau i leihau'r effeithiau niweidiol posibl ar yr amgylchedd.

I'r 80% o atebwyr a oedd â mynediad i adnoddau ailgylchu roedd eu defnydd ohonynt yn uchel (oddeutu 90%). Yr oedd canrannau

sylweddol yn poeni am gynhesu byd-eang (85%) a phrinder ynni (79%). Roedd canran lai yn poeni am fwydydd GM.

Roedd y defnydd o'r dulliau arbed ynni mwyaf cyffredin yn gymharol uchel. Er enghraifft, roedd 82% o atebwyr wedi inswleiddio eu llofftydd ac roedd 46% wedi inswleiddio eu waliau ceudod. At hynny, roedd 87% yn defnyddio bylbiau golau rhad-ar-ynni ac roedd gan 85% ffenestri gwydr dwbl. Roedd y defnydd o gynhyrchu ynni amgen yn llawer is, gydag 1% o atebwyr yn defnyddio ynni gwynt a 3% yn defnyddio paneli solar.

Roedd gan 90% o gartrefi gar neu ryw ffurf arall ar drafnidiaeth fodurol, ac roedd gan 52% o gartrefi ddau neu fwy o gerbydau. Dywedodd oddeutu traean o'r atebwyr â cherbydau eu bod wedi mynd yn fwy dibynnol ar eu cerbydau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a dywedodd 60% eu bod yr un mor ddibynnol.

Yr oedd ychydig mwy na chwarter y cartrefi â cherbydau yn teithio mwy nag 20,000 o filltiroedd y flwyddyn.

## Gwybodaeth Bellach

Cyhoeddir yr adroddiad llawn, Arolwg Cartrefi 2008, gan y WRO. Mae ar gael am ddim i'w lawrlwytho oddi ar:
**www.walesruralobservatory.org.uk**

Tel: 029 208 74970

e-bost: wro@cardiff.ac.uk